Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferylliaeth gymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru

## Casgliadau allweddol ac argymhellion

Lansiwyd ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cyfraniad a wneir gan fferylliaeth gymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru yn Awst 2011. Cyhoeddwyd casgliadau'r Pwyllgor ym Mai 2012.

### Casgliadau

Mae'r Pwyllgor yn argyhoeddedig bod mwy y gall fferylliaeth gymunedol ei wneud i gyfrannu at wasanaethau iechyd yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynigiad bod fferyllfeydd cymunedol yn cyrraedd cymunedau ledled Cymru mewn ffordd dreiddgar sy'n anodd i wasanaethau eraill. Dyma, yn ein barn ni, yw un o gryfderau allweddol y rhwydwaith.

Mae rhwystrau sylweddol o fewn y proffesiwn a rhwng grwpiau proffesiynol yn y gwasanaeth iechyd yn ein hatal rhag gwireddu llawn botensial fferylliaeth gymunedol. Yn ein barn ni, mae angen gwaith o fewn fferylliaeth gymunedol i godi safon y rhwydwaith llawn i safon y rhannau gorau ohono. Credwn hefyd fod cryn  gyfrifoldeb rhyngbroffesiynol i ddatrys rhai o'r materion rhwng proffesiynau y dangosodd ein hymchwiliad eu bod yn rhwystr i ddatblygiad fferylliaeth gymunedol yn y dyfodol.

### Argymhellion

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad cenedlaethol clir ar ddatblygu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y polisïau a'r strwythurau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau eu darpariaeth. Dylai hyn gynnwys blaenoriaethau y cytunir arnynt yn genedlaethol ar gyfer y gwasanaeth a chyfeiriad sy'n cael ei lywio'n ganolog ar gyfer ei ddatblygiad.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo gwasanaethau ychwanegol pellach gyda manyleb genedlaethol ar gyfer fferylliaeth gymunedol, gan gynnwys Gwasanaeth Cyflyrau Cronig cenedlaethol, a'i bod yn dilyn y model cynyddrannol arfaethedig ar gyfer cyflwyno Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Trin Mân Anhwylderau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u gwella'n drylwyr. O ran cyflyrau iechyd sy'n amlwg yn genedlaethol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r gwasanaeth gael ei alw'n genedlaethol, ond y dylid caniatáu ychydig o le o hyd i benderfynu ar faint a lleoliad gwasanaethau o'r fath yn lleol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod fferyllwyr cymunedol yn cael mynediad i gofnodion cryno am gleifion lle bydd cleifion wedi cofrestru gyda fferyllfa gymunedol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfranogiad cyson fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru'n cael ei sicrhau ar gyfer y rownd nesaf o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus, boed yn ymgyrchoedd cenedlaethol neu leol. Mae gofyn i'r Byrddau Iechyd Lleol fonitro cyfranogiad fferylliaeth gymunedol yn drylwyr i sicrhau bod y rheiny sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau contractiol yn cael eu dwyn i gyfrif am eu diffyg cydymffurfiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r mecanweithiau cyfathrebu y mae'n eu defnyddio i hysbysu'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael mewn unrhyw fferyllfa gymunedol unigol. I'r perwyl hwn, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob fferyllfa gymunedol roi sylw amlwg yn eu safle i'r gwasanaethau amrywiol sydd ar gael yn y fferyllfa honno.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfleoedd a gafwyd yn sgil cyhoeddi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer trin mân anhwylderau yn ddiweddar i ystyried newidiadau i'r ffordd mae fferyllfeydd cymunedol yn derbyn taliadau cydnabyddiaeth, gan gynnwys newid i system taliadau y pen, sy'n cael ei hategu gan system cofrestru cleifion.

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn rhoi blaenoriaeth i weithredu'n rhagweithiol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydweithredu a chydweithio rhwng fferyllwyr cymunedol a meddygon teulu, yn yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd trefol. Credwn fod arweiniad gwell gan y proffesiynau yn y cyd-destun hwn yn hanfodol i sicrhau perthynas gryfach rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol sydd eu hangen er mwyn integreiddio gwasanaethau fferylliaeth gymunedol yn llwyddiannus ac er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer gofal sylfaenol yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu, yn ystod y Cynulliad hwn, ail-ystyried y pwnc yma er mwyn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion sydd wedi'u gwneud.

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8403
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.